**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 11) 2022**

1. Ar 24 Ionawr 2023 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a’r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn a fydd yn gweithredu’r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw’r Gorchymyn i rym ar 30 Ionawr 2023, neu ar y dyddiadau y bydd yr arwyddion a’r marciau ffordd yn eu lle, p’un bynnag sydd hwyraf ac fe’i gelwir yn “Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 11) 2022”
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a’r cynlluniau sy’n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad ydynt yn unol â’r pwerau a roddwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf yn ymwneud â’r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o 30 Ionawr 2023, wneud cais i’r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae’r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i’w ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**Atodlenni Map AX43 ac AW43**

**Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg**

**Ffordd ddienw yn arwain at Barc Busnes Maes Awyr Caerdydd, Y Rhws**

1. Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â’r Ffordd Ddienw sy'n arwain i Ganolfan Hyfforddi Coleg y Barri, tua’r gogledd-ddwyrain am oddeutu 103 metr.

2. Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r ffordd fynediad i DNATA Catering, tua’r gogledd-ddwyrain yna’r de-ddwyrain yna’r de-orllewin am oddeutu 169 metr.

3. Ar ochr y de-ddwyrain, o’r ffordd ddienw sy’n arwain i Porthkerry Road, tua’r gogledd-ddwyrain am oddeutu 60 metr.

**Ffordd Fynediad yn arwain i DNATA Catering**

4. Ar ochr y de-orllewin o’r gyffordd â’r ffordd ddienw o flaen Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd tua’r gogledd-orllewin am 19 metr.

5. Ar ochr y gogledd-ddwyrain o’r gyffordd â’r ffordd ddienw o flaen Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd tua’r gogledd-orllewin am 17 metr.

**Ffordd Fynediad yn arwain i Aircraft Tool Hire**

6. Ar y ddwy ochr o’r gyffordd â’r ffordd ddienw o flaen Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd tua’r de-ddwyrain am 10 metr.

Ffordd ddienw yn arwain i Ganolfan Hyfforddi Coleg y Barri, Y Rhws

7. Ar ochr y gogledd-ddwyrain o’r gyffordd â chylchfan Parc Busnes y Maes Awyr tua’r gogledd-orllewin am 30 metr.

8. Ar ochr y de-orllewin o fan canol y gyffordd â'r ffordd ddienw sy'n arwain i adeilad terfynfa Maes Awyr Caerdydd, tua’r gogledd-orllewin am oddeutu 54 metr.

**Ffordd ddienw yn arwain i Porthkerry Road, Y Rhws**

9. Ar y ddwy ochr o’r gyffordd â chylchfan Parc Busnes y Maes Awyr tua’r de-ddwyrain am 13 metr.

Dyddiedig 26 Ionawr 2023

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo’r Alpau, Gwenfô CF5 6AA